**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1094
Ein cyf/Our ref DET/03349/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

14 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Tachwedd yn gofyn am fy marn ar ddeiseb P-05-1094 gan y Cynghorydd Mike Powell sy'n ymgyrchu i atal dymchwel y Bont Wen restredig gradd II* ym Mhontypridd.

Mae'n amhriodol i mi roi sylwadau ar y cynnig gan y bydd angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gael caniatâd adeilad rhestredig gan Weinidogion Cymru cyn y gall ddymchwel y bont ac ni ddylwn ragfarnu'r penderfyniad hwnnw. Er bod yna eithriadau i'r gofyniad i gael caniatâd o'r fath mewn achosion o frys eithriadol, rwy'n deall nad yw'r Cyngor yn cynnig yr opsiwn hwn. Felly, bydd gan bawb y cyfle i gyflwyno eu sylwadau fel rhan o hysbysiad cyhoeddus 21 diwrnod sy'n rhaid ei gynnal pan neu os gwneir cais o'r fath. Mae'n rhaid i unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cais gael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod caniatâd adeilad rhestredig.

Mae fy swyddogion yn Cadw wedi cysylltu â'r Cyngor o'r cychwyn pan awgrymwyd gyntaf bod angen dymchwel y Bont Wen, Pontypridd a Phont Castle Inn yn Nhrefforest ar frys. Maent wedi pwysleisio i'r Cyngor y dylai dymchwel unrhyw adeilad rhestredig fod yr opsiwn olaf un ar ôl asesu'r holl ddewisiadau ymarferol eraill yn drylwyr. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro y dylid ystyried unrhyw ddymchwel o adeilad rhestredig fel achos eithriadol a bod angen gwir gyfiawnhad dros gynigion o'r fath. Mae fy swyddogion hefyd wedi cynghori ar y cyfiawnhad lefel uchel y byddai ei angen pe bai cais am ganiatâd adeilad rhestredig i'w ddymchwel yn llwyddiannus. Yn yr un modd, maent wedi egluro y dylai unrhyw gynigion gael eu llywio gan adroddiad peiriannydd strwythurol achrededig ym maes cadwraeth a fyddai'n pwyso a mesur y posibilrwydd o atgyweiriadau cadwraeth yn erbyn gwaith dymchwel. Dyma'r ddolen ar gyfer y canllawiau perthnasol er gwybodaeth: https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/caniatad-adeilad-rhestredig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n deall bod y Cyngor yn ystyried cynnwys yr adroddiadau strwythurol achrededig ym maes cadwraeth a gomisiynodd ar gyfer y Bont Wen a Phont Castle Inn. Bydd yr adroddiadau yn llywio camau nesaf y Cyngor ac ymarferoldeb atgyweirio’r strwythurau yn hytrach na’u dymchwel. Bydd fy swyddogion yn parhau i gadw mewn cysylltiad â’r Cyngor ond a gaf fi awgrymu eich bod yn ysgrifennu at Arweinydd y Cyngor am unrhyw wybodaeth bellach y gall deimlo a fyddai o fudd i chi wrth ystyried y ddeiseb.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism